Independent Monitoring Boards

# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yn CEF Caerdydd

## Ar gyfer y flwyddyn adrodd 1 Medi 2024 i 31 Awst 2025

Cyhoeddwyd Ionawr 2026

national preventive mechanism

# Cynnwys

**Adrannau rhagarweiniol 1 – 3**
**Tudalen**


1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol 3

2. Disgrifiad o'r sefydliad 4

3. Pwyntiau allweddol 5

**Adrannau tystiolaeth 4 – 7**

4. Diogelwch 12
5. Triniaeth deg a dyngarol 15
6. Iechyd a llesiant 21
7. Cynnydd ac ailsefydlu 26

**Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol**

Ystadegau'r Bwrdd 30

Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol 30

**Atodiad A**

Darparwyr gwasanaethau 31


**Cyhoeddir pob adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Blynyddol ar www.imb.org.uk**

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda Gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol.
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a mathau eraill o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed a'i nod yw ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygiadau ar gyfer pob dalfa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â dalfeydd, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer carcharorion ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o’r sefydliad

Mae CEF Caerdydd yn garchar hyfforddi lleol categori B i ddynion (sy’n dal carcharorion nad oes angen y lefel uchaf o ddiogelwch arnynt ond sy’n dal i beri risg sylweddol o niwed i’r cyhoedd neu o ddianc), sydd wedi’i leoli yng nghanol prifddinas Cymru. Agorodd y carchar yn 1832, ac mae rhan fawr o’r llety’n dal i gynnwys tair adain o’r oes Sioraidd. Yn 1996, arweiniodd prosiect adnewyddu mawr at agor tair adain llety newydd. Erbyn hyn mae saith adain (A, B, C, D, E, F a’r ganolfan gofal iechyd) gyda thair uned ychwanegol yn ffurfio rhan o’r adenydd hynny (A1, B1 ac F1). Mae gan y carchar hefyd amrywiaeth o gyfleusterau eraill, gan gynnwys campfa, caplaniaeth, cyfres o weithdai ac ystafelloedd dosbarth. Agorwyd canolfan gofal iechyd newydd ym mis Mai 2008 ac mae’n cynnwys 20 gwely.

Mae’r carchar yn gwasanaethu de-ddwyrain Cymru a chymoedd de Cymru i raddau helaeth, er bod nifer cynyddol o garcharorion yn cael eu trosglwyddo o garchardai yn Lloegr. Mae’n gwasanaethu carcharorion sy’n bwrw dedfrydau tymor byr, carcharorion ar remand a rhai sy’n aros am ddedfryd yn bennaf. Mae gan y carchar lety arferol ardystiedig o 534[1] (nifer y carcharorion y gall carchar ei ddal heb fod yn orlawn) a chapasiti gweithredu (uchafswm nifer y carcharorion y gellir eu dal heb risg ddifrifol i ddiogelwch, diogeledd, trefn dda a chynnal y drefn gynlluniedig yn briodol) o tua 779. Yn ystod y flwyddyn adrodd, amrywiodd a gostyngodd y capasiti gweithredu i 774, tra bod prosiect adnewyddu celloedd yn mynd rhagddo. Mae’r rhan fwyaf o garcharorion yn cael eu cadw dau i’r gell; mae 40% ohonynt yn gelloedd unigol.

Mae CEF Caerdydd wedi parhau i wynebu pwysau o ran poblogaeth dros y cyfnod adrodd. Rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025 roedd 3,783 o dderbyniadau a 431 o drosglwyddiadau i mewn; 2,418 rhyddhad; a 1,254 o drosglwyddiadau i sefydliadau eraill. Ychydig iawn o effaith y mae’r mesurau a gyflwynwyd ar lefel Llywodraeth y DU i helpu i leihau pwysau ar garchardai wedi'i chael ar CEF Caerdydd, gyda nifer fechan o garcharorion ychwanegol yn gymwys i gael eu rhyddhau.

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu newid mewn uwch arweinyddiaeth yng Ngharchar EF Caerdydd, gyda Llywodraethwr a Dirprwy Lywodraethwr newydd dros dro yn cael eu penodi ym mis Tachwedd 2024. Roedd yr arweinyddiaeth newydd, o'r cychwyn cyntaf, yn croesawu rôl y Bwrdd Monitro Annibynnol ac mae wedi parhau, dros y naw mis dilynol, i sicrhau perthynas ymatebol a chynhyrchiol â'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi sylwi bod yr arweinyddiaeth hefyd yn cael dylanwad cadarnhaol ar y staff ehangach a'r diwylliant sefydliadol.

Mae Bwrdd Monitro Annibynnol Caerdydd hefyd wedi gweld newidiadau sylweddol, gyda gostyngiad yn nifer yr aelodau oherwydd salwch, cyflogaeth a materion eraill. Er mai 14 yw'r nifer a argymhellir a 10 oedd nifer yr aelodau ar ddiwedd y cyfnod adrodd blaenorol, gostyngodd hyn ymhellach o fis Ionawr 2025, i ddim ond pump. Mae hyn yn amlwg wedi cael effaith ar allu’r Bwrdd i fonitro’n helaeth ac ar nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd. Serch hynny, mae'r Bwrdd wedi parhau i weithio'n effeithiol ac mae'r ymrwymiad a ddangoswyd gan weddill yr aelodau wedi bod yn rhagorol.

---

[1] Mae’r ffigurau sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth reoli leol. Maent yn

adlewyrchu sefyllfa’r carchar adeg adrodd, ond gallant newid yn dilyn dilysu pellach ac felly efallai na fyddant bob amser yn gyson ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddwyd yn ddiweddarach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## 3. Pwyntiau allweddol

### 3.1 Prif ganfyddiadau

### Diogelwch

- Mae’r Bwrdd yn croesawu’r gostyngiad mewn digwyddiadau hunan-niweidio o 595 yn y flwyddyn adrodd flaenorol i 295 eleni ac yn nodi bod y carchar yn priodoli hyn yn bennaf i gyflwyno raseli trydan.
- Mae'r Bwrdd yn dymuno tynnu sylw at y gostyngiad sydd i'w groesawu yn nifer y digwyddiadau defnyddio grym, a ostyngodd o 852 i 600, ac yn y gostyngiad yn nifer yr achosion o drais o 283 i 214.
- Parhaodd y pwysau o ran poblogaeth y carchar yn ystod y cyfnod adrodd.
- Mae'r Bwrdd yn ailadrodd ei bryder, a fynegwyd y llynedd, ynghylch carcharorion y tu allan i'r ardal sy'n cyrraedd CEF Caerdydd yn hwyr, sy'n gohirio'r broses dderbyn.

### Triniaeth deg a dyngarol

- Mae’r Bwrdd yn ailadrodd y pryderon o adroddiadau blaenorol am amodau’r carchar, gan gynnwys diffyg lle y tu allan i’r gell ar gyfer bwyta; problemau parhaus gyda gwresogi a dŵr poeth; a hygyrchedd annigonol i garcharorion sydd â phroblemau symudedd.
- Rydym yn cydnabod y cynnydd a wnaed o ran adnewyddu ac adfer celloedd ac rydym yn croesawu’n arbennig gyflwyno ‘cell symudedd is’ ar landin F2.
- Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod prosiect Launchpad wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus (llwyfan digidol diogel sy'n rhoi mynediad i garcharorion at liniaduron yn eu celloedd), ymgymeriad cymhleth a oedd yn gofyn am ymgynghori a hyfforddiant helaeth. Nodwn bob y carcharorion yn fodlon iawn â'r system.
- Wrth gydnabod y manteision sylweddol y gallai cynllun gweithiwr allweddol sy'n gweithredu'n dda eu cynnig, mae'r Bwrdd yn ailadrodd bod angen i'r carchar roi blaenoriaeth i hyn.

### Iechyd a llesiant

- Mae'r Bwrdd yn croesawu cwblhau'r Dadansoddiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol hir-ddisgwyliedig a hefyd ymateb cadarnhaol ac amserol uwch reolwyr a gofal iechyd iddo.
- Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae'r trefniadau newydd ar gyfer meddygon teulu wedi'i chael. Rydym yn croesawu’r dull pragmataidd a ddefnyddir gan feddygon teulu sy’n gweithio gyda’r carchar i sicrhau bod meddyginiaeth carcharorion yn cael ei hadolygu a’i phresgripsiynu o fewn 24 awr. Mae’r Bwrdd yn credu bod hyn wedi cyfrannu at leihau nifer y ceisiadau (sylwadau ysgrifenedig carcharorion i’r Bwrdd Monitro Annibynnol) am faterion presgripsiynu/meddyginiaeth, o 55 y llynedd i 30 yn y flwyddyn adrodd.
- Mae'r Bwrdd yn tynnu sylw at y ffaith bod staffio wedi parhau i fod yn broblem fawr, yn enwedig diffyg argaeledd nyrsys. Er gwaethaf gwelliannau y llynedd, roedd archwilio cefndir staff yn dal i fod yn broblem o ran recriwtio a dechrau staff. Un pryder penodol i'r Bwrdd oedd nad oedd staff nyrsio yn cael eu

proffilio i fynd i'r dderbynfa tan y prynhawn, a oedd yn cael effaith uniongyrchol ar garcharorion sy'n dod i mewn ac aelodau eraill o staff.

- Mae'r Bwrdd yn nodi'r effaith barhaus y mae anfon carcharorion allan i'r ysbyty yn ei chael ar staffio'r carchar ac, wedi hynny, ar y drefn (y drefn ddyddiol strwythuredig a'r amserlen weithgareddau ar gyfer carcharorion), oherwydd yr angen am fwy o hebryngwyr.

- Dymuna'r Bwrdd gydnabod cydnabyddiaeth gadarnhaol y tîm iechyd meddwl, a adolygwyd gan gymheiriaid y Rhwydwaith Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Carchardai. Mae'r Bwrdd hefyd yn croesawu'r hyfforddiant ar gyfer holl staff y tîm iechyd meddwl mewn therapi ymddygiad gwybyddol, therapi ymddygiad tafodieithol, a gofal sy'n ystyriol o drawma, er mwyn gwella'r gwasanaeth i garcharorion.
- Fodd bynnag, rydym yn poeni am y rhestrau aros i garcharorion gael gwasanaethau iechyd meddwl ac, yn benodol, y gostyngiad o saith i chwe sesiwn seiciatrig yr wythnos tuag at ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r Bwrdd hefyd yn dal i boeni am yr amser mae'n ei gymryd i rai carcharorion gael eu trosglwyddo i leoliad iechyd meddwl addas.
- Mae'r Bwrdd yn dymuno tynnu sylw at ganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a nododd fod lefelau staffio iechyd meddwl yn isel o'u cymharu â charchardai tebyg eraill.
- Mae'r Bwrdd yn croesawu penderfyniad y carchar i gadw'r rhaglen cymheiriaid Here 2 Help, ar ôl i'r cyllid peilot ddod i ben.

**Cynnydd ac adsefydlu**

- Mae'r Bwrdd yn cydnabod y perfformiad cadarnhaol cyffredinol o ran dysgu a sgiliau yn y carchar ac mae'r aelodau wedi gweld arferion da mewn gweithgareddau addysg a gwaith drwy gydol y flwyddyn.
- Mae'r Bwrdd yn croesawu agor y ganolfan llesiant a'r datblygiadau arfaethedig, a fydd, yn ein barn ni, yn darparu cefnogaeth gadarnhaol i garcharorion.
- Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o gyflwr gwael yr ystâd mewn rhai ardaloedd a'r gwaith parhaus o gau adeiladau sydd wedi'u marcio ar gyfer eu dymchwel, sydd wedi effeithio ar ddarparu dysgu a sgiliau.
- Mae'r Bwrdd yn croesawu'r cynigion i ddod â phob agwedd ar arlwyo at ei gilydd, gan gynnwys y rolau cegin a gweinyddu, gyda hyfforddiant tuag at gymwysterau.
- Mae'r Bwrdd yn canmol y carchar a Waliau Anweledig (sefydliad nid-er-elw sy'n cefnogi teuluoedd) am gydweithio i addasu hen fwyty Clink i fod yn ganolfan ymwelwyr bwrpasol ac mae'n cydnabod yr ymateb cadarnhaol gan ymwelwyr sydd bellach yn elwa o'r cyfleuster hwn.

## 3.2 Prif feysydd datblygu

***I'R GWEINIDOG***

- Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu cymryd ar unwaith i fynd i'r afael â'r oedi yn y broses archwilio, sy'n rhwystr sylweddol wrth recriwtio staff carchardai ac aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol?
- Pryd fydd y Gweinidog yn codi gyda'r Swyddfa Gartref yr angen i ddatrys statws hawl i weithio staff carchardai, fel y gallant barhau i gael eu cyflogi gan y Gwasanaeth Carchardai?

***I'R GWASANAETH CARCHARDAI***

- Beth yw'r amserlen ar gyfer mynd i'r afael â chyflwr gwael rhannau o ystâd y carchar, cau parhaus yr adeiladau sydd wedi'u marcio ar gyfer eu dymchwel, a phroblemau parhaus gyda seilwaith sylfaenol fel gwresogi, dŵr poeth a ffonau?

***I'R BWRDD IECHYD***

- Sut gall Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro weithio gyda Charchar Caerdydd a'r adran gofal iechyd i liniaru'r effaith y mae anfon carcharorion allan i'r ysbyty yn ei chael ar staffio'r carchar a'r drefn, o ystyried yr angen cynyddol am hebryngwyr?
- Sut bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod archwiliadau presgripsiynu yng Ngharchar Caerdydd yn cael eu datrys yn gyflym, o ystyried bod trefniant rhannu swydd y fferyllwyr yn atal archwiliadau yn y carchar?
- Pa gamau fydd y Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r oedi cyn i garcharorion gael gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys sesiynau seiciatrig, sy'n is o'u cymharu â chyfleusterau eraill, fel y nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol?

***I'R LLYWODRAETHWR***

- Sut bydd y carchar yn sicrhau bod lle storio y gellir ei gloi yn cael ei ddarparu i garcharorion sydd â meddyginiaeth 'yn eu meddiant' i helpu i leihau'r risg y bydd carcharorion eraill yn cael gafael ar feddyginiaeth heb ei bresgripsiynu?
- Sut bydd y carchar yn gweithio gyda chyngor Caerdydd i sefydlu proses gofal cymdeithasol ffurfiol a chadarn, o ystyried nad oes un yn bodoli, fel yr amlygwyd yn yr Asesiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol?
- Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed i gyflwyno proffil staffio diwygiedig yn ystod y cyfnod adrodd. Sut bydd y trafodaethau hyn yn cael eu datrys ddechrau 2026 i gefnogi system gweithwyr allweddol well yng Ngharchar Caerdydd.
- Sut mae'r carchar yn bwriadu gwneud ymweliadau'n fwy cynhwysol i garcharorion ac ymwelwyr niwrowahanol?

### 3.3 Ymateb i'r adroddiad diwethaf

| Mater a godwyd | Ymateb a roddwyd | Cynnydd |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **I'r Gweinidog**<br><br>Bydd y Gweinidog yn gwbl ymwybodol o faterion gorlenwi ar draws ystâd y carchar. Dymuna'r Bwrdd ailadrodd y pryderon hyn ac, yn benodol, y sefyllfa yng Ngharchar Caerdydd. Sut a phryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater difrifol hwn? | Adroddiad blynyddol Caerdydd 2023-24 - ymateb gweinidogol - Byrddau Monitro Annibynnol [cliciwch ar y ddolen i weld yr ymateb] | Er nad oedd unrhyw gynnydd yn benodol i CEF Caerdydd, amlinellodd y Gweinidog ei gynlluniau yn y Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Capasiti Carchardai i fynd i'r afael â gorlenwi ar draws yr ystâd. |
| **I'r Gwasanaethau Carchardai** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Er bod y Bwrdd yn croesawu'r rhaglen barhaus i adnewyddu celloedd, pa atebion y gellir eu cyflwyno, neu y gellir buddsoddi ynddynt, i oresgyn y problemau parhaus gyda'r systemau gwresogi a dŵr?<br><br>Er ei fod yn cydnabod oedran y carchar, mae'r Bwrdd, unwaith eto, yn tynnu sylw at anaddasrwydd yr adeilad ar gyfer carcharorion anabl a/neu lai symudol a'r angen i bob carcharor fwyta yn eu celloedd, gan rannu'r gofod â chyfleusterau toiled.<br><br>Yng ngoleuni'r cydymffurfiad gwael â'r sesiynau gweithwyr allweddol a ragwelwyd a gostyngiad o 63% mewn sesiynau gwirioneddol o'i gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol, a allai'r Gwasanaeth Carchardai roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a gyflawnwyd o ran proffil staffio diwygiedig a'i lwyddiant o ran darparu mwy o amser a pharhad penodol ar gyfer gwaith allweddol? | Adroddiad blynyddol Caerdydd 2023-24 - ymateb gweinidogol - Byrddau Monitro Annibynnol | Mae ceisiadau am gyllid cyfalaf wedi cael eu cyflwyno ar gyfer tanciau dŵr ychwanegol a chynigion i osod pympiau a ffrwd uniongyrchol.<br><br>Mae'r gwaith blynyddol o wasanaethu'r systemau gwresogi wedi cael ei symud i fis Gorffennaf/Awst er mwyn rhoi amser ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ac i gwblhau unrhyw waith adfer posibl cyn yr hydref/gaeaf.<br><br>Mae cynlluniau i drosi cell ar landin F2 yn gell symudedd cyfyngedig yn y flwyddyn ariannol nesaf, gan gynnwys glanweithdra llawn yn y celloedd gyda chyfleusterau cawod.<br><br>Mae mynediad ramp a mynediad heb risiau wedi cael eu gosod lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Mae cyfleusterau toiled sgriniau yn y celloedd yn cael eu huwchraddio fel rhan o'r rhaglen dreigl i adnewyddu'r celloedd.<br><br>Mae gwaith allweddol yn un o flaenoriaethau craidd HMPPS yn 2025-2026. Mae'r targed cenedlaethol bellach yn canolbwyntio ar ansawdd gwaith allweddol, ac mae CEF Caerdydd wedi cael sgôr gwyrdd. |

| | | |
|---|---|---|
| Pa opsiynau eraill y mae'r Gwasanaeth Carchardai yn eu hystyried o ystyried nifer y | | Mae'r Bil Iechyd Meddwl yn nodi diwygiadau hanfodol i gefnogi pobl sydd â |

| | | |
|---|---|---|
| phroblemau iechyd meddwl yn parhau i gael eu cartrefu yn yr Uned Diogelwch Cymunedol.<br><br>Mae’r Bwrdd yn siomedig o weld bod y cyllid ar gyfer cymheiriaid Here 2 Help a’r hyfforddiant cadernid emosiynol ar gyfer y prosiect peilot carcharorion yn dod i ben ym mis Mawrth 2025. A ellid ailystyried y penderfyniad hwn?<br><br>Mae'r Bwrdd yn argymell bod y Gwasanaeth | | salwch yn y system cyfiawnder troseddol, gyda'r nod o gyflymu mynediad at ofal arbenigol i gleifion mewnol a sicrhau bod troseddwyr sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol yn gallu cael gafael ar gymorth priodol ac amserol yn y lleoliad mwyaf priodol.<br><br>Erbyn hyn, mae gan CEF Caerdydd reolwr cymorth niwrowahaniaeth i weithio gyda thimau amlddisgyblaethol yn CEF Caerdydd i gefnogi carcharorion ar draws sefydliad cyfan y carchar sydd â heriau niwrowahaniaeth, a allai gynnwys iechyd meddwl.<br><br>Bydd y Llywodraethwr yn tynnu sylw, drwy'r asesiad o anghenion iechyd, at y diffyg darpariaeth iechyd meddwl yn y carchar a bydd yn defnyddio cyfarfodydd bwrdd y bartneriaeth i dynnu sylw at y cymorth sydd ei angen yn y carchar ar gyfer carcharorion ag anghenion iechyd meddwl.<br><br>Roedd cefnogwyr cymheiriaid Here 2 Help a'r hyfforddiant gwytnwch emosiynol ar gyfer carcharorion newydd yn brosiect peilot cyfnod penodol, heb unrhyw gyllid y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Fodd bynnag, mae CEF Caerdydd wedi parhau i gynnig y gwasanaeth cymorth gan gymheiriaid. |

| | | |
|---|---|---|
| Carchardai yn gweithio gyda CEF Caerdydd i archwilio cyfleoedd i | | Cynyddodd cyfran y staff o grwpiau lleiafrifoedd ethnig o 3.95% ddiwedd mis Awst 2024 i |

| | | |
|---|---|---|
| hyrwyddo a recriwtio o gymunedau lleiafrifoedd ethnig lleol yn yr ardal gyfagos, er mwyn adlewyrchu poblogaeth y carchardai'n well, sy'n cynnwys 19% o leiafrifoedd ethnig. | | 7.8% erbyn diwedd mis Medi 2025. Fodd bynnag, nid oes yr un swyddog ethnig lleiafrifol uwchlaw graddfa swyddog carchar. |
| **I'r Bwrdd Iechyd**<br><br>Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn ymddiried yn y bydd y dadansoddiad o anghenion iechyd hwyr yn cael ei gynnal yn 2024-2025? | <br><br>Adroddiad blynyddol Caerdydd 2023-24 - ymateb gweinidogol - Byrddau Monitro Annibynnol | <br><br>Mae'r asesiad o anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i gwblhau. Ymatebodd uwch dîm arwain y carchar yn gyflym ac mae wedi ymrwymo i flaenoriaethu'r camau gweithredu a argymhellwyd. |
| Mae'r Bwrdd yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu lefel y ddarpariaeth dros y penwythnos yn y tîm iechyd meddwl, o ystyried y galw sylweddol am gymorth iechyd meddwl yn y carchar. | | Bydd model y gweithlu cyfan yn cael ei adolygu ar y cyd â'r adroddiad dadansoddi anghenion iechyd. |
| Mae'r Bwrdd unwaith eto'n dymuno tynnu sylw at geisiadau am feddyginiaeth/presgripsiynau sy'n dal i ddod i law ar lefel uchel iawn ac mae'n argymell bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i fynd i'r afael â hyn. | | Bydd y pennaeth gofal iechyd yn parhau i fonitro ceisiadau am feddyginiaethau a phresgripsiynau. Mae meddygon teulu wedi mabwysiadu'r agwedd bragmatig y bydd yr hyn sydd wedi cael ei bresgripsiynu i'r dynion yn y gymuned yn parhau yng CEF Caerdydd, gan gynnwys meddyginiaeth ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r Bwrdd yn awgrymu'r arfer newydd o frysbennu dim ond yr unigolion hynny sy'n gofyn am gael gweld y tîm iechyd meddwl yn ystod eu derbyniad neu sgrinio iechyd eilaidd broses hon yn cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau | | Dim ond yr unigolion hynny sy'n gofyn am gael gweld y tîm iechyd meddwl yn ystod eu derbyniad neu sgrinio iechyd eilaidd fydd yn cael eu hadolygu. |
| nad yw carcharorion yn cael eu hanwybyddu'n anfwriadol. | | |
| **I'r Llywodraethwr**<br><br>Mae'r Bwrdd yn credu y dylid adolygu'r broses ar gyfer darparu anghenion deietegol penodol a gwneud gwelliannau lle bo hynny'n bosibl. Bydd adolygiad thematig o ddarpariaeth bwyd yn cael ei gynnal gan y Bwrdd yn 2025. | Ni chafwyd ymateb, ond nododd y carchar fwriad y Bwrdd i gynnal adolygiad thematig o ddarpariaeth ddeietegol yn ystod cyfnod adrodd 2023-24. | Oherwydd bod aelodaeth y Bwrdd wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd, ni chynhaliwyd yr adolygiad thematig arfaethedig. Ni chodwyd unrhyw bryderon eraill gan garcharorion, felly mae'r Bwrdd o'r farn bod y mater hwn wedi'i gau. |

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

### 4.1 Derbyn a chynefino

4.1.1 Gwelwyd bod derbynfa CEF Caerdydd yn aml yn brysur ond yn cael ei rheoli'n dda. Gwelwyd bod staff yn gefnogol ac yn glir yn eu cyfarwyddiadau i garcharorion. Ym mis Medi 2024, cofnodwyd 608 o dderbyniadau ac, yn ystod y mis diwethaf o adrodd, ym mis Awst 2025, roedd 691 o dderbyniadau. Mae'r ffigurau hyn yn dangos y lefel uchel o drosiant poblogaeth yng Ngharchar Caerdydd.

4.1.2 Mae'r Bwrdd yn arbennig o bryderus am garcharorion o’r tu allan i'r ardal sydd wedi bod yn y llys yn ystod y rhan fwyaf o'r dydd ac sydd wedyn wedi cael eu cludo i Gaerdydd, gan gyrraedd ar ôl 7.30pm yn aml, pan fyddant wedyn yn dechrau'r broses dderbyn. Tynnwyd sylw at hyn yn adroddiad y llynedd ac mae’n dal yn wir. Mae'r unigolion sy'n cyrraedd yn hwyr yn effeithio ar staff y carchar a staff gofal iechyd, oherwydd os nad oes staff wrth gefn, maent yn cytuno i weithio oriau hirach i brosesu'r newydd-ddyfodiaid.

4.1.3 Mae carcharorion yn trosglwyddo o'r dderbynfa i'r adain gynefino; ar ôl cwblhau eu proses gynefino, maent wedyn yn symud i brif adain. Mae aelodau'r Bwrdd wedi arsylwi'r broses gynefino, sy’n cael ei harwain gan gymheiriaid wedi'u cefnogi gan swyddogion, yn darparu gliniaduron a lefel hygyrch o wybodaeth i garcharorion. Mae gofal iechyd, caplaniaeth, Dyfodol (y gwasanaeth ymyriadau camddefnyddio sylweddau) a'r tîm ailsefydlu yn cynnal asesiadau dilynol ar yr adeiniau.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niwed, marwolaethau yn y ddalfa

4.2.1 Yn anffodus, bu dwy farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd a achoswyd gan y carcharor ei hun yn ôl pob golwg; rydym yn aros am gwestau. Mae'r gefnogaeth a gynigir i deuluoedd gan CEF Caerdydd, yn enwedig tîm y swyddog cyswllt teulu, wedi gwneud argraff ar y Bwrdd.

4.2.2 Nododd y Bwrdd hefyd ganfyddiadau pum ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth (PPO) a oedd yn ymwneud â dwy farwolaeth yn y ddalfa yn CEF Caerdydd a thair marwolaeth ar ôl rhyddhau a oedd, er eu bod wedi digwydd cyn y cyfnod adrodd, wedi cael eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod hwn. Mewn un adroddiad, roedd yr argymhellion yn cynnwys adolygiad o'r broses dderbyn, er mwyn gwella'r prosesau trosglwyddo ac asesiadau risg rhwng staff hebrwng o'r carchar a staff y dderbynfa. Mewn ail adroddiad, roedd yr argymhellion yn cynnwys uwchsgilio staff gofal iechyd i sicrhau eu bod yn cynnal asesiadau o garcharorion ar wahân yn hyderus ac yn gymwys, ac adolygiad o'r defnydd o deledu cylch cyfyng yn y celloedd yn CEF Caerdydd. Mae’r Bwrdd yn nodi bod yr argymhellion hyn yn mynd i’r afael â phryderon difrifol ac yn croesawu camau gweithredu’r carchar mewn ymateb.

4.2.3 Cofnodwyd lefel yr hunan-niweidio yn y flwyddyn adrodd fel 295 o ddigwyddiadau, **gostyngiad sylweddol o 50% o'i gymharu â'r 595 o ddigwyddiadau yn y flwyddyn flaenorol.** Yn ystod y cyfnod adrodd, agorwyd 649 o gynlluniau ACCT (asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm) (sy'n cael eu defnyddio i gefnogi carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad), o'i gymharu â 629 y flwyddyn flaenorol. **Mae'r Bwrdd yn croesawu'r gostyngiad**

**mewn digwyddiadau hunan-niweidio yn ystod y flwyddyn adrodd ac, yn benodol, y gostyngiad o 57% dros y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Awst 2025, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024, y mae'r carchar wedi'i briodoli i gyflwyno raseli trydan.**

4.2.4 Fel rhan o'r gwaith o dynnu raseli siafio gwlyb o bob carchar caeedig i ddynion, cyflwynodd CEF Caerdydd raseli trydan ar 27 Ionawr 2025. Cynigiwyd dewisiadau eraill yn lle raseli gwlyb mewn carchardai, o ystyried eu defnydd mewn ymosodiadau difrifol yn erbyn staff a charcharorion ac mewn hunan-niweidio. Cafodd y broses weithredu ei thrin yn dda, gyda chyfnod amnest yn cael ei ddarparu i garcharorion roi eu raseli siafio gwlyb i mewn; mae pob carcharor bellach yn cael rasel drydan wrth gael eu cynefino.

4.2.5 Mae tîm y swyddog cyswllt teulu wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi carcharorion a'u teuluoedd. Cafodd eu cyfraniad ei gydnabod ym mis Rhagfyr 2024, pan enillodd y tîm Wobr yr Uchel Siryf yn seremoni wobrwyo flynyddol CEF Caerdydd ac, unwaith eto, wrth ennill yng ngwobrau cenedlaethol Cymru yn 2025.

### 4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

4.3.1 Gostyngodd nifer yr achosion o drais a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd o 283 i 214, gostyngiad o 23%. Mae nifer o'r digwyddiadau hyn wedi cael eu harsylwi gan aelodau'r Bwrdd a nodwyd bod staff wedi delio â nhw'n bwyllog ac yn broffesiynol.

4.3.2 Ymchwiliwyd i bob digwyddiad gan y tîm dalfa fwy diogel ac, os oedd angen, gwnaed atgyfeiriadau i'r tîm cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP), sy'n defnyddio model rheoli achosion lleihau trais i reoli carcharorion sy'n arddangos ymddygiad heriol neu dreisgar, neu sy'n debygol o'i ddefnyddio. Mewn achosion o’r fath, mae tîm dalfa fwy diogel CEF Caerdydd yn cynnal cyfarfod ymyriadau diogelwch CSIP wythnosol. Os bydd y tîm amlddisgyblaethol yn penderfynu bod angen cymorth CSIP ar garcharor, bydd rheolwr achos yn cael ei neilltuo iddo. Rheolwr carchar yw hwn a rheolwr preswyl yr uned lle mae'r carcharor wedi'i leoli.

### 4.4 Carcharorion agored i niwed, diogelu

4.4.1 Roedd carcharorion yr aseswyd eu bod yn agored i niwed yn cael eu rhoi ar adain lai B1, lle mae mynediad at addysg neu waith ar yr adain, yn ogystal â gwaith yn yr ardd a mynediad at y gampfa. Nid yw'r Bwrdd wedi sylwi ar unrhyw faterion sy'n peri pryder mewn perthynas â charcharorion agored i niwed a diogelu.

### 4.5 Defnyddio grym

4.5.1 Mae'r Bwrdd yn falch o nodi gostyngiad yn nifer y digwyddiadau lle defnyddiwyd grym (UoF). Roedd 641 o ddigwyddiadau lle defnyddiwyd grym yn ystod y flwyddyn, gostyngiad o 25% ar y 852 yn y cyfnod adrodd blaenorol. Roedd y rhain yn amrywio o reolaeth ac ataliaeth lawn i ychydig iawn o rym. O'r rhain, dim ond gafaelion tywys oedd tua 30% ohonynt. Bu naw ymyriad wedi'u cynllunio, ac nid oedd unrhyw achosion o swyddogion yn defnyddio chwistrell analluogi Pava nac yn tynnu batonau yn ystod y cyfnod hwn.

4.5.2 **Bu cynnydd, i 93%, yn y defnydd o gamerâu fideo a wisgir ar y corff (BWVC) yn ystod digwyddiadau lle defnyddiwyd grym. Mae hyn yn gynnydd nodedig ers mis Awst 2024, pan mai dim ond 80% oedd yn weithredol.**

### 4.6 Atal eitemau anghyfreithlon

4.6.1 Mae eitemau anghyfreithlon yn parhau i fod yn broblem ar draws yr ystâd.

Mae CEF Caerdydd wedi cynyddu amlder a lefel y chwiliadau o staff ac ymwelwyr yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae chwiliadau celloedd, wedi'u targedu neu'n gyffredinol, gan gynnwys dros nos, yn cael eu cynnal gan dîm chwilio pwrpasol, sydd weithiau'n cael eu cefnogi gan adnoddau rhanbarthol a chenedlaethol.

Yn ystod rhan olaf y flwyddyn adrodd, nodwyd, wrth i fwy o gyffuriau gael eu canfod a'u hatafaelu, bod nifer yr achosion o 'daflu drosodd' (lle mae pobl o'r tu allan i'r carchar yn taflu parseli sy'n cynnwys eitemau anghyfreithlon dros y waliau, i'w casglu gan garcharorion) wedi cynyddu.

4.6.2 Canfu sampl o sganiau corff a gynhaliwyd ym mis Mehefin, mis Gorffennaf a mis Awst 2025 sganiau cadarnhaol mewn, yn y drefn honno, 8%, 5.2%, a 26% o achosion, gan awgrymu gostyngiad i'w groesawu yn nifer y carcharorion sy'n ceisio dod â sylweddau anghyfreithlon i mewn; o'r rhain, roedd 21 allan o 44 yn dderbyniadau newydd. Siaradodd y Bwrdd â nifer o garcharorion yn yr uned gofal a gwahanu (CSU), a oedd yn honni fwyfwy nad oeddent yn cuddio eitemau, er bod sganiau wedi canfod eitem yn eu corff. Codwyd y mater gyda'r Llywodraethwr ym mis Awst 2025, a oedd yn glir nad oedd y canlyniadau hyn oherwydd cynnydd mewn cuddio ond oherwydd gwell hyfforddiant ac uwchsgilio staff sy'n gweithredu'r sganiwr corff i ganfod eitemau o'r fath. Dywedodd fod proses sicrwydd ardderchog wedi cael ei rhoi ar waith, lle'r oedd nifer o staff yn gwirio sganiau os oedd unrhyw amheuaeth; gellid anfon sganiau at y tîm cenedlaethol hefyd i'w dilysu, os oedd angen.

4.6.3 Arsylwodd y Bwrdd ar ddyfarniadau (gwrandawiadau disgyblu a gynhelir gan Lywodraethwr os amheuir bod carcharor wedi torri rheolau'r carchar) ar sail ad-hoc. Roedd 2,611 o ddyfarniadau yn y flwyddyn adrodd, o'i gymharu â 2,216 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o bron i 18%. O'r 2,611, profwyd 1,282 ac anfonwyd 80 at y dyfarnwr annibynnol. Gellid priodoli'r cynnydd hwn yn y flwyddyn adrodd i gynnydd mewn strategaethau rhagweithiol i leihau'r cyflenwad a'r galw am eitemau anghyfreithlon. Nid oedd gan y Bwrdd unrhyw bryderon am y broses pan gafodd ei harsylwi.

# 5. Triniaeth deg a dyngarol

## 5.1 Llety, dillad, bwyd

5.1.1 Mae CEF Caerdydd wedi wynebu pwysau o ran poblogaeth am y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd, er bod y capasiti gweithredol wedi lleihau tua diwedd y cyfnod. Roedd hyn o bosibl oherwydd y mesurau a gymerwyd ar draws yr ystâd o ran rhyddhau cynnar, er mai ychydig iawn o garcharorion mae CEF Caerdydd ei hun yn eu rhyddhau o dan y cynlluniau hyn.

5.1.2 Yn ystod y flwyddyn, mae'r prosiect adnewyddu celloedd wedi parhau, gyda 25 o gelloedd eraill wedi cael eu cwblhau ar A4, sy’n golygu bod y landin hwn wedi’i gwblhau. Cwblhawyd 13 cell arall ar A3, gyda'r gwaith ar y landin hwnnw'n parhau. Mae'r carchar wedi gofyn am ragor o gyllid i gwblhau'r gwaith adnewyddu celloedd ar adain E, a gafodd ei ganslo pan ddaeth y pandemig, gan adael tua 20 o gelloedd heb eu cwblhau.

5.1.3 Mae'r prosiect adennill celloedd wedi gweld chwe chell newydd yn cael eu hadnewyddu, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar orlenwi. Dechreuodd gwaith hefyd ar gell symudedd cyfyngedig ar landin F2, a fydd yn gartref i un carcharor sydd â symudedd cyfyngedig a chyfaill a fydd yn gallu ei helpu drwy ei gyfnod yn y carchar. Cwblhawyd gwaith ar y celloedd atal-clymau ar adeiniau C a D ac mae gan y celloedd hyn bellach ddodrefn dalfa fwy diogel o'r radd flaenaf. **Mae’r Bwrdd yn cydnabod y cynnydd a wnaed o ran adnewyddu ac adfer celloedd ac yn croesawu’n arbennig gyflwyno cell symudedd is ar F2.**

5.1.4 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bu problemau parhaus gyda'r systemau gwresogi a dŵr yn y carchar, ac nid yw hyn yn syndod, o ystyried oedran a chyflwr y sefydliad. Mae'r carchar wedi ymateb o fewn amser rhesymol i fynd i'r afael â'r problemau hyn ond, ar brydiau, mae'n ymddangos nad oedd adroddiadau'n symud o'r adain i'r rheolwyr, a oedd yn arwain at oedi cyn eu cywiro. Ar yr adegau hyn, roedd y Bwrdd yn gallu codi materion penodol gydag uwch reolwyr.

5.1.5 Er y cydnabyddir nad yw'n bosibl darparu darpariaeth bwyta y tu allan i'r gell, oherwydd diffyg lle ar adeiniau, mae'r Bwrdd, unwaith eto, yn dymuno tynnu sylw at y diffyg gwedduster o ran carcharorion yn gorfod bwyta mewn celloedd a rennir gyda thoiled a rennir yn y gofod.

5.1.6 Cafodd y Bwrdd naw cais (sylwadau ysgrifenedig gan garcharorion i’r Bwrdd Monitro Annibynnol) ynghylch bwyd, sy’n ostyngiad o’r 11 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y prif fater a godwyd gan garcharorion yn ymwneud â maint dognau ar rai adeiniau, ac fe wnaethom uwchgyfeirio hyn i’r uwch dîm rheoli a staff y ceginau.

5.1.7 Symudodd y system archebu prydau bwyd i Launchpad yng ngwanwyn 2025. Ar ôl gweithredu fel system ar-lein o'r blaen, symudwyd i Launchpad yn ddidrafferth. Mae'r carchar a'r Bwrdd yn credu bod hyn yn gweithio'n dda.

5.1.8 O arsylwadau’r Bwrdd, mae’r ceginau’n parhau i weithredu’n effeithlon, gyda goruchwyliaeth dda gan y rheolwyr a chyfraniad cyson gan y carcharorion sy’n gweithio yn yr ardal honno. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae cyfarpar diffygiol wedi achosi problemau ac, unwaith eto, wedi cymryd cryn dipyn o amser i'w adnewyddu neu ei atgyweirio sydd, yn ei dro, wedi rhoi pwysau ar y gwasanaeth a'r staff. Ar y cyfan, gwelwyd bod y gweinyddfeydd yn lân ac yn daclus. Ar sawl achlysur, mae'r Bwrdd wedi adrodd nad yw gweithwyr gweini wedi

gwisgo'n briodol, gyda gorchuddion pen, yn benodol, ddim yn cael eu gwisgo'n gyson ar rai adeiniau.

5.1.9 O ran gweithredu **Launchpad yn gyffredinol ar draws y carchar, mae'r Bwrdd yn cydnabod bod y dasg enfawr a chymhleth hon wedi cael ei rheoli'n dda,** gyda staff yn cael eu hymgynghori a'u hyfforddi a chymorth wrth law yn cael ei ddarparu yn ystod ac ar ôl ei gyflwyno. Rydym wedi monitro'r broses o'i rhoi ar waith a'i gweithredu ers ei chyflwyno. O safbwynt fforwm cymheiriaid a chwynion cyffredinol, mae lefel uchel o foddhad ymysg carcharorion, gydag ychydig iawn o eithriadau. Tynnwyd sylw at broblemau wrth neilltuo PINs (rhifau adnabod personol, sy'n godau unigryw a neilltuir i bob carcharor er mwyn iddynt allu gwneud galwadau ffôn) drwy'r system newydd, sydd wedi arwain at gynnydd mewn ceisiadau i'r Bwrdd, ond barn y carchar yw bod hyn, ar y cyfan, yn ymwneud â pholisi yn hytrach na Launchpad.

5.1.10 Mae adroddiadau misol yn cael eu cynnal ar lefel y Llywodraethwr i dynnu sylw at dagfeydd neu feysydd sy'n peri pryder. Disgwylir i'r carchar weithio gyda'r tîm gwireddu buddion ym mis Hydref 2025 i weld yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn a allai fod angen mwy o graffu. Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro hyn.

## 5.2 Gwahanu

5.2.1 Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd 292 o garcharorion yn yr uned gofal a gwahanu (CSA) o'i gymharu â 396 yn y flwyddyn flaenorol. Mae wyth cell yn yr uned gofal a gwahanu, gan gynnwys tair cell camera, cell atal-clymau, cell llety arbennig (lle mae eitemau fel dodrefn, dillad gwely a glanweithdra yn cael eu tynnu er diogelwch) a chell a neilltuwyd yn benodol ar gyfer unrhyw ' brotestiadau budr', sydd wedi cael ei defnyddio sawl gwaith yn ystod y cyfnod adrodd.

5.2.2 Roedd carcharorion yn cael eu cadw ar wahân yn yr uned gofal a gwahanu o ganlyniad i dorri rheolau disgyblaeth dda, methu sganiau corff neu oherwydd dyfarniadau. Dros y flwyddyn, mae'r gwahanu wedi bod yn arosiadau tymor byr yn bennaf. Fodd bynnag, arhosodd un carcharor yn llawer hirach, dan Reol 45, sy'n caniatáu i garcharor gael ei wahanu oddi wrth weddill y boblogaeth am resymau trefn neu ddisgyblaeth dda, neu er eu diogelwch eu hunain. Nid yw aelodau'n cael gwybod fel mater o drefn am drosglwyddiadau i'r uned gofal a gwahanu lle ddefnyddiwyd grym, er y dylai hyn fod yn arfer safonol. Mae staffio yn yr uned wedi newid dros y cyfnod, ond mae'r Bwrdd wedi gweld eu bod yn ddefnyddiol ac wedi gweld eu bod yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r unigolion yn yr uned, sy'n gallu bod yn heriol ar adegau gyda rhai carcharorion.

5.2.3 Mae Llywodraethwyr, tîm y gaplaniaeth a staff y ganolfan gofal iechyd yn ymweld bob dydd, ac mae meddyg teulu yn ymweld deirgwaith yr wythnos. Mae aelodau'r Bwrdd yn ymweld â'r uned yn aml pan fyddant ar ymweliadau monitro i ymgysylltu â charcharorion a helpu i ddelio ag unrhyw faterion a godir. Cynyddodd y materion hyn rywfaint dros haf 2025, o bosibl oherwydd y tîm newydd yn yr uned, a thynnwyd sylw'r uwch dîm arwain at hyn. Cafodd y Bwrdd naw cais gan garcharorion yn yr uned yn ystod y cyfnod adrodd a oedd, ar wahân i un, yn ymwneud ag eiddo coll a meddyginiaeth. **Ar ôl tynnu sylw'r carchar at y digwyddiadau hyn o ran eiddo coll, rhoddwyd hysbysiad i staff i wella'r gweithdrefnau.**

5.2.4 Mae aelod o'r Bwrdd yn arsylwi cyfarfodydd rheolaidd y grŵp monitro ac adolygu gwahanu (SMARG), lle bynnag y bo modd. Ar ben hynny, mae'r holl garcharorion sydd wedi'u gwahanu am saith diwrnod a mwy yn cael eu trafod yn y

cyfarfod ymyriadau diogelwch aml-asiantaeth (SIM).

5.2.5 Yn ystod y flwyddyn, agorwyd saith dogfen ACCT gan staff yr uned, ac roedd 30 o garcharorion eisoes ar gynlluniau ACCT agored cyn cyrraedd yr uned. Roedd yr achosion ACCT gwahanu yn cael eu monitro gan aelodau'r Bwrdd, gyda chofnodion dyddiol, arsylwadau ac adolygiadau'n cael eu nodi fel bo’n briodol.

5.2.6 Mae poblogaeth lleiafrifoedd ethnig CEF Caerdydd yn tueddu i aros yn sefydlog ar 18-19%. Roedd cyfanswm o 31% o'r carcharorion a letywyd yn yr uned gofal a gwahanu yn ystod y flwyddyn adrodd yn dod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â 24% yn y flwyddyn flaenorol a adolygwyd. Fel yr argymhellwyd gan y Bwrdd y llynedd, mae'r gwaith o gasglu data wedi gwella ac mae hyn yn dangos bod nifer fach o droseddwyr mynych yn effeithio ar y ffigurau. Cofnodwyd bod 22% o garcharorion ifanc (18-25 oed) wedi'u neilltuo ar gyfer gwahanu, o'i gymharu â 18% o oedolion ifanc yn y carchar yn gyffredinol. Mae data wedi nodi effaith troseddwyr mynych ar y ffigurau hyn.

5.2.7 Yn gyffredinol, nid yw'r Bwrdd wedi gweld unrhyw bryderon sylweddol ynghylch arferion gwahanu yn CEF Caerdydd.

### 5.3 Perthynas staff a charcharorion, gweithwyr allweddol

5.3.1 Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Bwrdd wedi gweld gwelliant yn yr awyrgylch ar y rhan fwyaf o adeiniau, yn ogystal â'r berthynas rhwng swyddogion a charcharorion a datrys problemau. Fodd bynnag, mae ceisiadau am staff gan garcharorion wedi aros ar yr un lefel â'r llynedd, gan ostwng un yn unig eleni, i 44. Mae'r materion y cyfeirir atynt yn cynnwys agwedd gyffredinol swyddogion, ymosodiadau honedig, gwahaniaethu ac aflonyddu.

5.3.2 Yn ystod y cyfnod adrodd, cyfanswm nifer y sesiynau gweithwyr allweddol oedd 4,758, cynnydd o 448 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rhagwelwyd y byddai 37,803 o sesiynau gweithwyr allweddol ar gyfer y cyfnod hwn, gan roi cyfradd gydymffurfio o 12.59%, cynnydd o 1.5% ers y llynedd. Mae cymhareb y carcharorion i weithwyr allweddol yn parhau i fod yn 6:1.

5.3.3 Parhaodd y gwaith drwy gydol y flwyddyn i ddatblygu a negodi proffil staffio diwygiedig, a fyddai wedi cefnogi nifer y sesiynau gwaith allweddol, ond mae hyn wedi cael ei ohirio tan o leiaf fis Ionawr 2026. Bydd y Bwrdd yn monitro ei weithrediad.

5.3.4 Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gall materion fel pwysau ar y boblogaeth a newidiadau i'r drefn effeithio ar y gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, **mae’r manteision y gallai cynllun gweithiwr allweddol sy'n gweithredu'n dda eu cynnig yn sylweddol ac mae'r Bwrdd yn ailadrodd bod angen i'r carchar roi blaenoriaeth i hyn.**

5.3.5 Cynhelir cyfarfodydd fforwm carcharorion wythnosol, gyda phresenoldeb da ac aml gan uwch arweinwyr a chynrychiolwyr carcharorion. Mae aelodau'r Bwrdd yn arsylwi'r fforwm yn rheolaidd ac yn adrodd eu bod yn rhyngweithiol ac yn gadarnhaol, gyda swyddogion y carchar yn ymateb i'r materion a godwyd.

### 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

5.4.1 Derbyniodd y Bwrdd saith cais, wedi’u categoreiddio fel rhai a oedd yn ymwneud â ‘chydraddoldeb’, yn ystod y flwyddyn, cynnydd o un o’i gymharu â’r flwyddyn adrodd flaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys honiadau o wahaniaethu

sefydliadol gan staff, diffyg argaeledd parhaus cynhyrchion ar gyfer carcharorion trawsryweddol (er bod y Bwrdd yn cydnabod bod y carchar wedi datrys hyn yn ystod y flwyddyn) a honiadau am gael eu hatal rhag mynd i wasanaethau crefyddol.

5.4.2 Mae cymheiriaid cydraddoldeb ar bob adain i helpu a chynghori carcharorion. Cynhelir cyfarfodydd misol gyda'r cymheiriaid amrywiaeth i gasglu adborth, nodi pryderon a chynnig cymorth. Mae'r carchar hefyd yn cynnal fforymau nodweddion gwarchodedig bob deufis rhwng carcharorion a phenaethiaid swyddogaethau i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u nodweddion gwarchodedig (sy'n cynnwys oedran, crefydd, hil, anabledd, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol, ymysg eraill).

5.4.3 Ymdrinnir ag unrhyw adroddiadau am ymddygiad gwahaniaethol drwy'r broses ffurflen adrodd am ddigwyddiad gwahaniaethu (DIRF), y darperir gwybodaeth amdani ar yr adeiniau. Yn ystod y cyfnod adrodd, rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025, derbyniwyd 70 DIRF. Y categorïau oedd hil: 40; rhywedd: 5; anabledd: 11; crefydd: 6; a chyfeiriadedd rhywiol: 8. O'r rhain, tynnwyd chwech yn ôl a chafodd pedwar eu hanfon ymlaen i adran fwy priodol. Ni chadarnhawyd cyfanswm o 49, a chadarnhawyd 11.

5.4.4 Cynhaliwyd gwiriadau sicrwydd DIRF bob deufis gyda'r Llywodraethwr Llywodraethu a grŵp o staff sydd â nodweddion gwarchodedig i adolygu cysondeb a thegwch yr ymatebion i DIRFs. Ar ben hynny, mae'r swyddog cydraddoldeb yn cwrdd â'r rhai sydd wedi cyflwyno ffurflen DIRF bob wythnos nes eu bod wedi cael eu hymateb ac am bythefnos ar ôl hynny i sicrhau eu llesiant.

5.4.5 Mae carcharorion sydd angen cynlluniau personol gadael mewn argyfwng (PEEPs), sy'n darparu cymorth i'r rhai sydd ddim yn gallu dianc o'r carchar heb gymorth mewn argyfwng, yn cael eu diwallu gan yr adran cydraddoldeb ar ôl eu noson gyntaf yn y ddalfa i dynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen cymorth ac i ganfod eu manylion personol, fel ethnigrwydd, cenedligrwydd ac unrhyw anghenion gofal. Mae carcharorion y nodir bod angen cymorth ychwanegol arnynt i adael yr adeilad yn cael eu gweld yn wythnosol i asesu eu llesiant a sicrhau bod eu hanghenion meddygol yn cael eu diwallu, gyda chofnodion yn cael eu nodi ar system ddigidol y gwasanaeth carchardai. **Unwaith eto, mae'r Bwrdd yn mynegi ei bryder bod CEF Caerdydd yn anaddas ar y cyfan i garcharorion ag anabledd a/neu broblemau symudedd.**

5.4.6 Mae carcharorion trawsryweddol yn cael cynnig cynnyrch benywaidd pan fyddant yn cyrraedd y dderbynfa. Mae aelod o staff o'r adran gydraddoldeb yn cwrdd â nhw yn fuan wedyn, sy'n egluro'r cymorth sydd ar gael yn fanylach, gan gynnwys yr opsiwn i brynu eitemau fel colur neu estyniadau gwallt drwy gatalog, yn ogystal â dillad merched. Cynhelir bwrdd achos trawsrywedd lleol o fewn pythefnos ar ôl iddynt gyrraedd er mwyn sicrhau eu diogelwch a'u gwedduster. Cynhelir cyfarfodydd llesiant wythnosol hefyd gyda'r swyddog cydraddoldeb i fonitro cefnogaeth barhaus a sicrhau bod urddas yn cael ei gynnal.

5.4.7 Bydd unrhyw garcharorion newydd nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn cael eu darparu, lle bo hynny'n bosibl, â charcharor sy'n siarad ei iaith fel cyfaill tra bydd yn y dderbynfa. Mae hyn er mwyn eu helpu i beidio â theimlo eu bod yn cael eu llethu drwy gael cyswllt â rhywun sy'n siarad eu hiaith. Nid yw'r carcharorion hyn yn cael eu defnyddio at ddibenion cyfieithu, dim ond er mwyn rhoi sicrwydd iddynt. Mae tri charcharor band gwyrdd sy'n wladolion tramor hefyd, sy'n siarad Arabeg, Cwrdeg a Phwyleg fel eu hiaith frodorol ac sy'n cynnig cymorth i'r rhai sydd â gallu cyfyngedig yn y Saesneg. Cynhelir cyfarfodydd bob deufis gyda'r carcharorion hyn a'r swyddog arbenigol gwladolion tramor, yn yr uned rheoli troseddwyr (OMU), sy'n cysylltu â'r Swyddfa Gartref ac adrannau mewnfudo.

5.4.8 Mae staff yn gweithio'n rheolaidd gyda Launchpad i hyrwyddo amrywiaeth a thrafod pynciau perthnasol, neu i ennyn diddordeb carcharorion mewn digwyddiadau. Mae staff hefyd wedi rhoi cyflwyniadau i grwpiau o garcharorion i dynnu sylw at grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a meithrin dealltwriaeth, gan gynnwys ar garcharorion Sipsiwn, Roma a Theithwyr a Shavuot (gwyliau Iddewig).

5.4.9 Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth ysgrifenedig ar gyfer carcharorion yn Saesneg, mae deunydd mewn ieithoedd eraill ar gael i ryw raddau ac ar gais. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyhoeddwyd hysbysiad Llywodraethwr, yn tynnu sylw at y gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae yna hefyd wasanaeth cyfieithu ar y pryd dros y ffôn 24 awr, y gall swyddogion ei ddefnyddio.

5.4.10 Cynhaliwyd digwyddiadau rheolaidd i ddathlu amrywiaeth carcharorion a staff, gan gynnwys Mis Pride; presenoldeb staff yn Pride Caerdydd; a chwifio baner Pride y tu allan i'r sefydliad.

5.4.11 Cynyddodd cyfran y staff o grwpiau lleiafrifoedd ethnig o 3.95% ddiwedd mis Awst 2024 i 7.8% erbyn diwedd mis Medi 2025. Mae hwn yn ddatblygiad i'w groesawu, er ei fod yn dal yn is na'r ffigur o 20.8% yn y gymuned gyfagos yn ôl Cyfrifiad 2021 y DU. Hefyd, nid oes yr un swyddog ethnig lleiafrifol uwchlaw lefel swyddog carchar. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol y gallai rhai o'r staff a benodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf fod yn wynebu problemau fisa, ac mae HMPPS yn ymwybodol o hyn.

5.4.12 Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd y carchar hysbysiad am gynnydd sylweddol mewn sylwadau homoffobig wedi'u hanelu at staff. Cadarnhaodd y Llywodraethwr y byddai'r math hwn o ymddygiad yn cael ei herio gan bawb sy'n gweithio yn CEF Caerdydd, er mwyn diogelu a chefnogi'r grŵp staff. Roedd y camau a gymerwyd yn cynnwys ymgynghori â swyddog cyswllt yr Heddlu Troseddau yn y Carchar ar sut i fwrw ymlaen â riportio'r troseddau hyn, adolygu polisi'r cynllun cymhellion lleol a chynnal fforymau staff.

## 5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

5.5.1 Mae caplaniaeth y carchar yn cynnwys tîm llawn amser, sy'n cynrychioli crefyddau Mwslimaidd, Protestannaidd, Catholig, Sikhaidd, Iddewig, Bwdhaidd, Dyneiddwyr a Phaganaidd. Mae'r gaplaniaeth yn darparu agwedd bwysig ar swyddogaeth y swyddog cyswllt teulu a gofynnwyd iddi wneud hynny yn ystod y cyfnod adrodd, o ran carcharorion a oedd yn ddifrifol wael neu a fu farw, yn anffodus.

## 5.6 Cwynion

5.6.1 Cyfanswm nifer y cwynion mewnol a dderbyniwyd gan y carchar ar gyfer y flwyddyn adrodd, ac eithrio gofal iechyd a DIRFs oedd 1,842, o'i gymharu â 1,472 ar gyfer y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 25%. Roedd y rhan fwyaf o gwynion yn canolbwyntio ar: faterion staff, gan gynnwys bwlio (232); ad-daliadau ffreutur (165); a chynlluniau cymhellion/PIN ffonau (136).

## 5.7 Eiddo

5.7.1 Mae cwynion am golli eiddo carcharorion a'r ffordd yr ymdrinnir ag eiddo carcharorion wedi cynyddu ychydig, o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol. Rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025, derbyniwyd 28 o geisiadau i'r Bwrdd, o'i gymharu â 22 yn 2023-2024. Nid yw hwn yn gynnydd sylweddol, ond bydd y Bwrdd yn monitro

dros y flwyddyn nesaf i weld a yw hyn yn duedd ar i fyny. Nodir hefyd, o'r ceisiadau a dderbyniwyd, bod nifer ohonynt yn ymwneud yn benodol ag eiddo coll wrth drosglwyddo i'r uned gofal a gwahanu neu oddi yno.

**Cododd y Bwrdd hyn gyda'r uwch dîm arwain a rhoddwyd cyngor wedyn i swyddogion ar y mater hwn.**

# 6. Iechyd a llesiant

## 6.1 Gofal iechyd cyffredinol

6.1.1 Roedd 75 o geisiadau gofal iechyd i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn adrodd, gyda 30 yn canolbwyntio ar feddyginiaeth/presgripsiynau. Roedd hyn yn ostyngiad sylweddol o’i gymharu â nifer y ceisiadau ym mlwyddyn adrodd 2023-2024, pan fu cyfanswm o 97 o geisiadau gofal iechyd, gyda 54 yn canolbwyntio ar feddyginiaeth a phresgripsiynau. Efallai mai'r rheswm am y gostyngiad hwn oedd y **cynnydd yn nifer y sesiynau meddyg teulu a oedd ar gael drwy'r darparwr newydd a bod meddygon teulu wedi gallu adolygu meddyginiaethau ar gyfer derbyniadau newydd o fewn 24 awr.**

6.1.2 **Yn gadarnhaol, mae'r Bwrdd yn nodi bod yr Asesiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael ei gynnal, a bod gweithgorau bach wedi bod yn edrych ar yr argymhellion** a sut i'w rhoi ar waith. Cafodd cyfanswm o 33 o'r 36 o gamau gweithredu eu blaenoriaethu, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i roi'r rhain ar waith, gyda'r tri arall i gael sylw yng ngham 2.

6.1.3 Roedd y sefyllfa staffio ym maes gofal iechyd yn broblemus, yn enwedig mewn perthynas â staff nyrsio a'r fferyllfa. Ar rai adegau yn ystod y flwyddyn adrodd, dim ond tair neu bedair nyrs oedd ar gael, yn hytrach na saith gweithiwr proffesiynol cofrestredig, yn cynnwys technegwyr fferyllol. Priodolwyd hyn i salwch staff, recriwtio a chadw gwael, ac oedi o ran fetio diogelwch. Dylai cyfanswm y staff nyrsio craidd, gan gynnwys rheolwyr a nyrsys camddefnyddio sylweddau, fod yn 23.5, ynghyd â saith gweithiwr cymorth gofal iechyd. Ddiwedd mis Awst 2025, roedd 16.2 aelod o'r staff nyrsio craidd yn cael eu cyflogi ac yn gweithio, ynghyd â chwe gweithiwr cymorth gofal iechyd. Mae cynllun recriwtio parhaus wedi cynyddu'r gweithlu nyrsio 4.4 FTE (staff cyfwerth ag amser llawn).

## 6.2 Gofal iechyd corfforol

6.2.1 **Mae'r Bwrdd a'r carchar yn poeni am staffio, y cyfeiriwyd ato eisoes uchod, ac sydd yn dal yn broblem fawr, yn enwedig y diffyg argaeledd nyrsio. Unwaith eto, roedd fetio yn broblem o ran recriwtio a dechrau staff.** Ym mis Mawrth 2025, ar y cyd â CEF Caerdydd, datblygwyd ‘canllaw uwchgyfeirio’ i sicrhau bod staff y carchar a staff nyrsio yn CEF Caerdydd ac uwch reolwyr Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro yn ymwybodol o’r sefyllfa staffio nyrsio graidd ar unrhyw ddiwrnod.

6.2.2 **Mae'r Bwrdd yn arbennig o bryderus nad yw staff nyrsio yn cael eu proffilio i fynychu'r dderbynfa tan y prynhawn.** Gall hyn olygu bod carcharorion sy’n cael eu galw yn ôl neu eu trosglwyddo, sy'n aml yn cyrraedd yn y bore, yn gorfod aros yn y dderbynfa nes bydd nyrsys ar gael i wneud yr archwiliadau iechyd angenrheidiol. Ar ben hynny, rydym hefyd yn bryderus mai dim ond un nyrs gofrestredig a chynorthwyydd gofal iechyd oedd ar gael gyda'r nos ac yn ystod y nos, a nodwyd hefyd yn yr Asesiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

6.2.3 Yn dilyn yr Asesiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol, roedd yn ymddangos bod gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r wybodaeth gryno am ryddhau rhwng CEF Caerdydd, y ganolfan gofal iechyd a gwasanaethau meddygon teulu cymunedol. Mae gwelliannau amgylcheddol hefyd wedi cael eu gwneud mewn ardaloedd i wella ystafelloedd triniaeth yn unol â mesurau atal a rheoli heintiau. Mae rhai gwasanaethau sgrinio iechyd y cyhoedd wedi dechrau.

6.2.4 Yn gadarnhaol, mae 17 sesiwn meddyg teulu yr wythnos erbyn hyn ac mae gwasanaeth meddyg teulu ar-lein yn cael ei ddarparu am ddwy awr bob dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul i gefnogi'r broses dderbyn a gyda phresgripsiynau. Mae'r Bwrdd yn falch o nodi bod gwasanaeth y tu allan i oriau Caerdydd a'r Fro (CAV 24/7) ar gael i'r tîm nyrsio, naill ai i gael cyngor neu, os oes angen, ar gyfer apwyntiadau penodol. Dechreuodd hyn fel prosiect peilot ym mis Ebrill 2025 ac, yn dilyn adolygiad, daeth yn wasanaeth parhaol. Mae'r Bwrdd wedi cael gwybod bod y gwasanaeth hwn, lle bo hynny'n briodol, wedi lleihau'r cyfnod y mae carcharorion a staff hebrwng allan o'r carchar ac wedi lleihau'r amser i gael triniaeth.

6.2.5 Yn ystod y cyfnod adrodd, darparwyd 6,937 o apwyntiadau meddyg teulu, gydag amser aros cyfartalog o 17 diwrnod (gwaith) am apwyntiad meddyg teulu a chyfradd peidio â mynychu (DNA) o 20%. Ar gyfer apwyntiadau deintyddol, sy'n parhau i fod yn wasanaeth brys yn unig, cynigiwyd cyfanswm o 1,775 o apwyntiadau yn ystod y cyfnod hwn; roedd yr amseroedd aros yn 15 diwrnod, gyda chyfradd DNA o 24%. Ar gyfer y gwasanaeth optegydd, darparwyd 221 o apwyntiadau, gydag amser aros cyfartalog o 28 diwrnod a chyfradd DNA o 36%. Gellir gwneud apwyntiadau nawr drwy'r system Launchpad ac anfonir negeseuon atgoffa am apwyntiadau drwy Launchpad. Roedd y Bwrdd yn falch o nodi bod mynediad at ffisiotherapydd ar gael os oes angen.

6.2.6 Mae'r gofyniad i staff y carchar hebrwng carcharorion i'r ysbyty wedi parhau i effeithio ar drefn y sefydliad, gan gynnwys cyfnod clo pedwar diwrnod ym mis Awst pan mai dim ond gweithwyr hanfodol oedd yn cael mynd i'r gwaith, oherwydd lefelau is o staff. Gall yr angen am hebryngwyr brys hefyd effeithio ar apwyntiadau ysbyty sydd wedi'u trefnu, sydd wedi arwain at rai achosion o ganslo. Mae'r tîm rheoli gofal iechyd a'r carchar wedi cyflwyno proses lle, os bydd angen canslo hebryngwyr, bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar y cyd i sicrhau bod apwyntiadau critigol yn cael eu blaenoriaethu.

**6.2.7 Dylid rhoi trefniadau cadarn ar waith i gydbwyso'r angen clinigol i garcharorion gael eu gweld yn yr ysbyty â gallu'r carchar i weithredu'n effeithiol a sicrhau bod y boblogaeth gyffredinol yn cael digon o amser allan o'r gell.**

6.2.8 Mae tîm y fferyllfa hefyd yn parhau i fod yn brin o staff. Mae dau fferyllydd rhan amser wedi cael eu penodi, fel swydd ar y cyd â'r carchar a'r feddygfa. Mae cynorthwyydd fferyllfa wedi cael ei benodi, ond nid yw wedi dechrau yn y swydd eto, oherwydd oedi o ran fetio diogelwch. Ar adegau lle mae prinder staff penodol, mae'r tîm yn dibynnu ar gymorth gan wasanaeth fferylliaeth yr ysbyty. Nid oes gan y tîm fynediad at gymorth gweinyddol. Fodd bynnag, yn unol ag argymhellion yr Asesiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae dau dechnegydd fferyllfa wedi cael eu trosglwyddo i'r tîm fferylliaeth o'r tîm gofal iechyd.

6.2.9 **Mae'r fferyllwyr sy'n presgripsiynu yn rhannu swydd felly nid ydynt wedi gallu presgripsiynu, oni bai bod trefniadau'n cael eu gwneud i wirio'r presgripsiynu. Dylid mynd i'r afael â hyn pan fydd y tîm wedi'i staffio'n llawn a dylid ei ystyried yn flaenoriaeth.**

6.2.10 Hysbyswyd y Bwrdd bod gan **ganran isel o garcharorion feddyginiaeth 'yn eu meddiant', ond nad oes ganddynt unman i'w storio y gellir ei chloi.** Darparwyd cypyrddau y gellir eu cloi ar un adain beth amser yn ôl, ond dywedwyd wrth y Bwrdd bod hyn wedi bod yn anodd ei reoli. **Dylai rheolwyr y carchar a'r ganolfan gofal iechyd adolygu hyn.**

## 6.3 Iechyd meddwl

6.3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd adolygwyd y tîm iechyd meddwl gan gymheiriaid y Rhwydwaith Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Carchardai. Canfu'r adolygiad fod y tîm wedi bodloni 71% o'r safonau'n llawn, gydag ymarfer yn ymwneud â rhyddhau a throsglwyddiadau'n cael ei ystyried yn 'safon aur'. Roedd y carcharorion a gyfwelwyd yn siarad yn gadarnhaol am y tîm fel un a oedd yn helpu ac yn barchus wrth ryngweithio, ac roeddent yn dweud eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt. **Dymuna'r Bwrdd gydnabod y gydnabyddiaeth hon i'r tîm iechyd meddwl.**

6.3.2 Parhaodd y tîm iechyd meddwl i frysbennu dim ond y rhai a ofynnodd am gael gweld gweithiwr iechyd meddwl yn ystod derbyn ac ail sgrinio atgyfeiriadau newydd. Arweiniodd y rhain, ynghyd â'r rhai a gyfeiriwyd yn ddiweddarach yn eu cyfnod yn y carchar, at 203 o atgyfeiriadau i'r tîm bob mis ar gyfartaledd; gwelir pob un ohonynt o fewn 72 awr. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan y system gweithiwr ar ddyletswydd, sy'n gallu gweld pob derbyniad newydd a charcharorion sy'n wynebu argyfwng, yn ogystal â sicrhau bod rhywun yn mynychu pob cyfarfod ACCT (asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm) newydd. Derbyniodd y Bwrdd 11 cais mewn perthynas ag iechyd meddwl, yn aml am yr oedi cyn cael eu gweld. Ategwyd y pryder hwn gan garcharorion a oedd yn mynychu'r fforwm carcharorion wythnosol: *'Mae'r amser aros ar gyfer iechyd meddwl yn rhy hir.'*

6.3.3 Yn gyffredinol, dywedir bod staffio yn y tîm iechyd meddwl yn foddhaol, er bod yr Asesiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi ei fod yn isel o'i gymharu â charchardai eraill tebyg. Un o brif bryderon yr Asesiad oedd y dylid cael mynediad at saith sesiwn seiciatrig yr wythnos; fodd bynnag, tua diwedd y flwyddyn adrodd, dim ond chwe sesiwn seiciatrig yr wythnos oedd ar gael.

6.3.4 Yr amser aros hiraf am apwyntiad seiciatreg gofal sylfaenol oedd 10 wythnos, gydag arhosiad o 26 wythnos am asesiadau newydd o gleientiaid ADHD. Rhoddodd y tîm flaenoriaeth i ystyried trosiant carcharorion yn CEF Caerdydd a allai fod wedi cael eu derbyn a'u rhyddhau, a'u derbyn eto, o fewn y cyfnod aros 26 wythnos hwnnw. Trosglwyddwyd 12 carcharor i gyfleusterau seiciatrig yn ystod y flwyddyn adrodd, ac roedd yr amser aros i drosglwyddo'n amrywio o chwe diwrnod i 184 diwrnod, gyda saith o'r trosglwyddiadau'n cael eu cwblhau o fewn 21 diwrnod i gwblhau'r argymhelliad cyntaf. **Mae'r Bwrdd yn dal i boeni am yr amser mae'n ei gymryd i rai carcharorion gael eu trosglwyddo i leoliad addas.**

6.3.5 **Mae'r Bwrdd yn croesawu'r wybodaeth bod holl staff y tîm iechyd meddwl wedi cael, neu'n cael, hyfforddiant mewn therapi ymddygiad gwybyddol, therapi ymddygiad tafodieithol a gofal sy'n ystyriol o drawma i wella'r gwasanaethau y gallant eu cynnig i garcharorion.**

## 6.4 Gofal Cymdeithasol

6.4.1 Prin yw'r dystiolaeth bod asiantaethau gofal cymdeithasol yn gweithio gyda CEF Caerdydd i ddarparu cymorth, er bod y Bwrdd yn ymwybodol bod ymdrechion wedi'u gwneud i gynnwys yr asiantaethau hynny. Nododd adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EF fod diffyg dealltwriaeth ymysg staff carchardai o'r gwahaniaeth rhwng anghenion gofal cymdeithasol ac anghenion gofal iechyd, a nododd yr Asiantaeth nad oedd proses ffurfiol ar waith ar gyfer gofal cymdeithasol rhwng y carchar a'r awdurdod lleol. **Mae'r Bwrdd yn credu bod hyn yn cael ei adolygu a bod proses gadarn yn cael ei rhoi ar waith.**

## 6.5 Amser allan o’r gell, y drefn

6.5.1 Mae amser allan o’r gell ar gyfer unigolion sydd ddim yn weithwyr sydd ar lefel safonol (canol) cynllun cymelliadau’r carchar bellach yn 3.5 awr. Mae hyn yn cynnwys hanner awr yn yr awyr agored (TIOA). Mae cyfundrefn y sefydliad yn cael ei hadolygu, gyda dychweliad i awr o TIOA i’w gynnwys ar gyfer pob dyn.

6.5.2 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd 530 o leoedd cyflogaeth neu weithgareddau ar gael. Mae’r rhai sy'n mynychu lleoliad gweithgaredd a neilltuwyd yn cael 3.5 awr allan o'u celloedd yn y bore a thair awr yn y prynhawn ar y rhan fwyaf o ddyddiau'r wythnos, sydd, unwaith eto, heb newid ers y flwyddyn adrodd flaenorol. Mae pob dyn cyflogedig yn cael 1.25 awr o gymdeithasu gyda'r nos, ac eithrio ar ddydd Mawrth a dydd Gwener.

6.5.3 Yn ystod y diwrnod craidd (yr amserlen ddyddiol safonol sy’n strwythuro trefn carcharor), mae carcharorion yn mynychu sesiynau campfa, gan gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys codi pwysau, pêl-droed, clwb colli pwysau, a grŵp byw’n iach. Cynhelir cystadlaethau drwy gydol y flwyddyn, ynghyd â chystadlaethau rhwng adeiniau ar y cae chwaraeon. Ar benwythnosau, gall carcharorion nad oes gweithgarwch wedi'i neilltuo ar eu cyfer fynychu sesiwn 1.25 awr, bore neu brynhawn, gyda phob un yn caniatáu i 35 o garcharorion fynychu.

Mae pob dyn yn cael cyfle i gael cawod ar ôl cwblhau pob sesiwn yn y gampfa drwy gydol yr wythnos.

6.5.4 Ar benwythnosau, mae pob carcharor allan o'u celloedd am awr o gymdeithasu, yn y bore a'r prynhawn, ynghyd ag un cyfnod o 30 munud o ymarfer corff; mae amser ychwanegol ar gael ar gyfer casglu prydau bwyd ac unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn. Mae carcharorion lefel uwch (sy'n golygu eu bod ar lefel uchaf y cynllun cymelliadau) allan o'u celloedd, yn y bore a'r prynhawn, am y cyfnod cymdeithasu llawn, a fyddai'n cyfateb i tua thair awr.

6.5.5 Mae gweithgareddau cyfoethogi'n cael eu hwyluso ar rai unedau, gan gynnwys clwb gemau neu wyddbwyll ac unedau llai sy'n cefnogi camddefnyddio sylweddau; mae'r rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth yn cwblhau'r gweithgareddau hyn yn ogystal â'r cyfnodau cymdeithasu (pan fydd carcharorion yn cael eu datgloi o'u celloedd ac yn cael cymysgu ag eraill mewn ardaloedd cymunedol).

## 6.6 Adsefydlu cyffuriau ac alcohol

6.6.1 Mae'r gwasanaeth adsefydlu defnyddwyr cyffuriau yn dal i gael ei reoli gan Dyfodol, elusen sy'n cefnogi carcharorion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Mae'r llwyth achosion oddeutu 180, ond mae 400 o ymyriadau eraill yn cael eu cynnal, gan gynnwys grwpiau penodol i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol. Mae staffio'n broblematig. Dylai'r tîm gynnwys un arweinydd tîm, saith gweithiwr achos ac un gweithiwr ymyriadau byr. Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae'n cynnwys un arweinydd tîm a phedwar gweithiwr achos, sef y sefyllfa am y rhan fwyaf o'r flwyddyn adrodd. Mae hyn wedi lleihau eu gallu i weld atgyfeiriadau ac mae'r system gweithiwr ar ddyletswydd wedi gorfod cael ei hatal, er bod staff yn parhau i fynychu pob cyfarfod ac adolygiad ACCT. Mae carcharorion yn gallu cyfeirio eu hunain am gymorth drwy'r system Launchpad electronig. Mae'r tîm yn derbyn tua 35-40 o hunanatgyfeiriadau bob mis, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu gweld

o fewn pedwar neu bum diwrnod.

6.6.2 Gall CEF Caerdydd ddefnyddio ymyriadau adsefydlu yn ystod dyfarniadau (gwrandawiadau disgyblu a gynhelir gan Lywodraethwr os amheuir bod carcharor wedi torri rheolau'r carchar) i gynnig cymorth ychwanegol i'r rhai y canfyddir eu bod wedi camddefnyddio cyffuriau neu alcohol yn anghyfreithlon. Ar gyfartaledd, mae hyn oddeutu pedwar y mis. Hysbyswyd y Bwrdd mai dim ond un carcharor a wrthododd gymryd rhan yn yr ymyriad. Nid yw pob Llywodraethwr wedi defnyddio'r opsiwn o ddyfarniad adsefydlu, ac **mae'r Bwrdd yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud i roi gwybod i'r Llywodraethwyr hynny am y cymorth sydd ar gael i atal aildroseddu pellach.**

6.6.3 O arsylwadau’r Bwrdd, mae’r adain byw heb sylweddau dan gymhelliant (ISFL) yn parhau i ddarparu canlyniadau cadarnhaol. Mae landin ychwanegol wedi cael ei ychwanegu ar gyfer graddedigion a charcharorion sy'n aros i ymuno â'r rhaglen, gyda chefnogaeth ychwanegol gan gymheiriaid sydd eisoes wedi cwblhau'r rhaglen. Mae sgiliau staff wedi cael eu datblygu i asesu dynion sydd ag anghenion mwy cymhleth, gan gynnwys hanes sylweddol o gamddefnyddio sylweddau a gwendidau posibl eraill. Mae'r asesiadau hyn ar gyfer ISFL yn cael eu cynnal gyda chymorth nifer o asiantaethau i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth, gyda'r gred bod yr unigolion yn debygol o lwyddo.

6.6.4 Cyn rhyddhau, cynigiwyd pecyn naloxone, sef meddyginiaeth sy'n gallu gwrthdroi effeithiau gorddos opioid yn gyflym, i bob carcharor ar lwyth achosion Dyfodol. Gwnaed gwaith cymheiriad un-i-un ymlaen llaw, gyda'r nod o annog yr unigolion hynny i gymryd y cit ar ôl cael eu rhyddhau. Mae hyn wedi cynyddu nifer y pecynnau sy'n cael eu cymryd.

6.6.5 Mae defnyddio cyffuriau yn parhau i fod yn broblem, gyda lefelau'n amrywio dros y cyfnod adrodd. Gweithyddion derbynnydd canabinoidau synthetig, neu SCRA, yw'r rhan fwyaf o'r cyffuriau a geir (sy'n dynwared effeithiau canabis ond sydd fel arfer yn llawer cryfach ac yn fwy anrhagweladwy), y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel Spice. Mae nifer yr achosion o garcharorion y canfuwyd eu bod dan ddylanwad cyffuriau wedi amrywio o ddau ym mis Hydref 2024 i 11 ym mis Mai 2025. Cynigiwyd cymorth i'r carcharorion hyn gan Dyfodol.

### 6.7 Sgiliau meddal

6.7.1 Mae cynllun Gwrandawyr y Samariaid (lle gall carcharorion hyfforddedig gynnig cefnogaeth emosiynol gyfrinachol i garcharorion eraill) wedi parhau i ddarparu adnodd pwysig i ddynion yn CEF Caerdydd a allai fod yn ystyried hunanladdiad a/neu hunan-niweidio. Mae adroddiadau dyddiol y carchar yn cadarnhau bod Gwrandawyr yn cynnig cymorth yn rheolaidd, yn aml yn hwyr gyda’r nos neu’n gynnar yn y bore.

6.7.2 Yn 2024, daeth CEF Caerdydd yn safle peilot ar gyfer cymheiriaid Here 2 Help, lle mae mentoriaid cymheiriaid hyfforddedig yn ceisio cefnogi gwytnwch emosiynol carcharorion drwy'r carchar. Yn ein hadroddiad blaenorol, mynegwyd siom bod y cyllid canolog ar gyfer y prosiect hwn wedi'i gwtogi ar ôl mis Mawrth 2025. **Dymuna'r Bwrdd gydnabod y penderfyniad a wnaed gan y carchar i gadw'r gefnogaeth werthfawr hon.**

# 7. Cynnydd ac adsefydlu

## 7.1 Addysg, llyfrgell

7.1.1 Darperir dysgu a sgiliau carchar yn CEF Caerdydd drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ddarparu yn dilyn y polisi 'Gwell Dysgu, Gwell Cyfleoedd' (Awst 2024). Paratowyd strategaeth addysg, sgiliau a gwaith (ESW) leol, gyda dadansoddiad o anghenion.

7.1.2 Caiff cynnydd ei fonitro drwy fframwaith ansawdd, sy'n cofnodi perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r dangosfwrdd isod (Ffig. 1) yn dangos perfformiad yn erbyn y dangosyddion allweddol ac yn dangos cynnydd da ar draws y dangosyddion. **Mae'r Bwrdd yn croesawu'r perfformiad cadarnhaol cyffredinol ac mae'r aelodau wedi gweld arferion da mewn gweithgareddau addysg a gwaith drwy gydol y flwyddyn.**




Ffig 1

7.1.3 Yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol, cynhaliwyd arolygiad allanol gan Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP), yn ogystal â dau adolygiad mewnol o addysg a hyfforddiant gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS), yn seiliedig ar ddisgwyliadau[2] Estyn. Lluniwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r canfyddiadau o wendidau mewn dysgu a'r cwricwlwm mewn rhai meysydd ac yn y prosesau adrodd sy'n monitro effaith y newidiadau i'r cwricwlwm ar rai dysgwyr. Mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy gynllun datblygu ansawdd ac mae'r rhan fwyaf o'r meysydd a nodwyd yn y cynllun (68%) yn dangos

[2] Mae Estyn yng Nghymru yn cyfateb i Arolygiaeth Addysg EF yn Lloegr.

cynnydd yn erbyn yr amcanion. Mae diffygion staff wedi cael eu nodi fel ffactor sy'n arafu cynnydd mewn rhai is-adrannau.

7.1.4 Yn ystod y flwyddyn adrodd, adroddwyd bod 76% o garcharorion mewn gweithgarwch pwrpasol, ar gyfartaledd, bob wythnos, gyda 68% mewn gweithgarwch hanner amser o leiaf. Mewn wythnos arferol, roedd 127 o garcharorion mewn addysg, 188 mewn swyddi carchar, 75 mewn diwydiannau, ac 20 ar gyfartaledd mewn ymyriadau neu weithgareddau eraill. Mae'r dangosfwrdd (Ffigur 1, uchod) yn dangos bod cyfradd llwyddiant gyffredinol o 81.6% wedi'i chyflawni yn y flwyddyn adrodd ar gyfer targed Llywodraeth Cymru o 5,000 o gyrsiau'n dechrau.

7.1.5 Ymddeolodd y Llyfrgellydd yn ystod y flwyddyn adrodd, ac mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor wedi penodi rhywun i gymryd ei le, er nad yw yn ei swydd eto. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei gynnal gan swyddog y llyfrgell, ac mae swyddogion (carcharorion dibynadwy sy'n ymgymryd â gwaith i ddarparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at redeg y carchar) wedi bod yn cynnal y gwasanaeth llyfrgell symudol. Bwriedir symud y llyfrgell o'r lleoliad presennol i weithdy mwy.

## 7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

7.2.1 Mae'r ganolfan gyflogaeth wedi cael ei had-drefnu a'i symud i ailsefydlu. Mae'n cynnwys holl staff y llwybr cyflogaeth, gan gynnwys yr adran arweinydd cyflogaeth, Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, hyfforddwyr swyddi, y Ganolfan Waith, Barod am Waith, a'r ganolfan asesu addysg, sgiliau a gwaith. Y nod yw sicrhau bod yr holl agweddau ar gyflogadwyedd o dan un ymbarel a gwella dull a arferai fod yn dameidiog. Sefydlwyd bwrdd cyflogaeth, hyfforddiant a dyrannu (ETA) i sicrhau bod carcharorion yn cael eu dyrannu i'r llwybrau addysg, sgiliau a gwaith perthnasol a'r hyfforddiant a'r gefnogaeth alwedigaethol sydd eu hangen lle nodir hynny.

7.2.2 Mae gwasanaethau hanfodol yn cael eu darparu gan garcharorion i gefnogi gweithrediad dyddiol y carchar, gan gynnwys y gegin, golchi dillad a rheoli gwastraff. Mae meysydd gwaith eraill yn cynnwys glanhawyr, peintwyr, hyrwyddwyr gwedduster a chymheiriaid adain. Roedd cyfleoedd cyflogaeth hefyd mewn argraffu a siop y ffreutur. Roedd cymwysterau ar gael yn y gweithdy TG/argraffu sylfaenol mewn dylunio posteri a defnyddio rhaglenni Microsoft. Daeth y gweithdy lletygarwch i ben ym mis Mai 2025, oherwydd ymddeoliad staff, ond mae disgwyl iddo ailagor ar ôl recriwtio llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys datblygiad wedi'i gynllunio i gynnwys pob agwedd ar arlwyo, gan gynnwys rolau yn y ceginau a'r cownteri arlwyo, gyda hyfforddiant tuag at gymwysterau. **Mae'r Bwrdd yn croesawu'r cynnig hwn a bydd yn ei fonitro pan fydd yn cael ei roi ar waith.**

7.2.3 Cynhaliwyd cysylltiadau cyflogaeth gyda Balfour Beatty, Wilmot Dixon, Future Skills Programme a Fulcrum Scaffolding, gyda hyfforddiant wedi'i ariannu'n parhau mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, People Plus, React, yn ogystal â chyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithio mewn warysau, rheoli traffig, rheilffyrdd, toi, sgiliau adeiladu sylfaenol a chardiau CSCS (cynllun ardystio sgiliau adeiladu), sy'n profi bod gan unigolyn yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol i weithio ar safle adeiladu. Cynhaliwyd ffair adeiladu ym mis Mai 2025, a ddenodd dros 20 o gyflogwyr adeiladu, yn ogystal ag Iceland a Greene King. Er mwyn sicrhau bod cysylltiadau cyflogaeth priodol yn cael eu datblygu, cynhaliwyd arolwg o

anghenion cyflogaeth carcharorion i ddatblygu adroddiad dadansoddi anghenion. Datblygir cysylltiadau cyflogaeth drwy fwrdd cynghori ar gyflogaeth, sy'n cynnwys y pennaeth addysg, sgiliau a gwaith, brocer cyflogaeth rhanbarthol, Gyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

7.2.4 **Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o gyflwr gwael yr ystâd mewn rhai ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith a chau adeiladau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer eu dymchwel. Mae hefyd yn ymwybodol o'r anawsterau o ran cynnal lefelau staff, oherwydd ymddeoliadau a'r cyfnodau hir i recriwtio a chynnal gwiriadau diogelwch ar gyfer staff newydd. Mae'r Bwrdd wedi nodi bod hyn yn ffactor o ran cynnal parhad y gwasanaeth ac oedi o ran datblygiadau.**

7.2.5 Mae strategaeth ddarllen ar waith i gefnogi carcharorion sydd â phroblemau llythrennedd. Cynhelir digwyddiad darllen bob mis yn y neuadd ymweliadau, sy'n gysylltiedig â Bang Up Books (cwmni nid-er-elw sy'n darparu llyfrau newydd sbon am ddim i garchardai), Prison Reading Group (elusen sy'n hyrwyddo darllen er pleser mewn carchardai) a Raising Readers (cynllun sy'n cael ei redeg gan y carchar i helpu carcharorion i gadw mewn cysylltiad â'u plant drwy lyfrau). Mae cysylltiadau hefyd â Phrifysgol Caerdydd, sy'n gweithio mewn partneriaeth i wella'r digwyddiadau darllen. Mae gwasanaethau elusennol Ymddiriedolaeth Shannon ar gael i gefnogi darllenwyr lefel isel, er bod y Bwrdd yn nodi bod heriau i gadw mentoriaid cymheiriaid hyfforddedig, oherwydd trosglwyddiadau. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion niwrowahaniaeth yn y strategaeth, mae llyfrau'n cael eu darparu'n rheolaidd i'r Uned Gofal a Gwahanu, yn ogystal ag i'r adain carcharorion agored i niwed a'r adain noson gyntaf.

7.2.6 Mae dau ddosbarth Saesneg ychwanegol ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) wedi cael eu cyflwyno i ymdopi â'r galw gan garcharorion rhyngwladol. Mae llythrennedd a rhifedd wedi'u hymgorffori ym mhob cwrs ac mae'r cynnydd mewn dosbarthiadau ESOL wedi golygu mai dyma'r prif ddarparwr ar gyfer cyrsiau llythrennedd a rhifedd.

7.2.7 Agorwyd hwb llesiant sy'n cynnwys gweithgareddau celf a cherddoriaeth. Mae cwrs llesiant yn cael ei ddatblygu, a fydd yn cynnwys iechyd meddwl, rheoli straen, deallusrwydd emosiynol, gwytnwch ac ymwybyddiaeth ofalgar. Bydd y rhain yn cael eu darparu ochr yn ochr â strategaethau iechyd corfforol sy'n ymdrin â gweithgarwch corfforol, maeth a chwsg iach. Bydd y ganolfan hefyd yn cynnwys lles ariannol, cysylltiadau cymdeithasol, meithrin perthnasoedd cadarnhaol a dealltwriaeth o benderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd a rheoli llwythi gwaith. Bydd agweddau ar lesiant hefyd yn cael eu hymgorffori mewn gweithgareddau addysg a hyfforddiant ehangach. **Mae'r Bwrdd yn croesawu agor y ganolfan llesiant a'r datblygiadau arfaethedig, a bydd yn ei fonitro.**

### 7.3 Rheoli troseddwyr, camu ymlaen

7.3.1 Mae gwasanaethau adsefydlu'n cael eu darparu gan amrywiaeth o ddarparwyr, yn ogystal â HMPPS. Mae'r rhain yn cynnwys Ymddiriedolaeth St Giles, Forward Trust, Dyfodol, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Waliau Anweledig (Gwasanaethau Teulu). Rhoddwyd sylw i'r swyddi gwag a nodwyd yn adroddiad y llynedd ac nid ydynt wedi cael effaith ar gyflawni swyddogaethau allweddol.

7.3.2 Dros y cyfnod adrodd, cafodd 2,418 o garcharorion eu rhyddhau o CEF Caerdydd. Felly, roedd y galw am gymorth ailsefydlu yn uchel. Mae demograffeg carcharorion CEF Caerdydd yn golygu nad yw tua 50% o'r boblogaeth wedi'u cael yn euog ac nad oes rheolwr troseddwyr wedi cael ei neilltuo iddynt. Er bod carcharorion sydd wedi cael eu dedfrydu yn cael eu trosglwyddo i CEF Y Parc fel mater o drefn, mae'r pwysau cenedlaethol ar y boblogaeth yn y sefydliad hwnnw

wedi cael effaith sylweddol ar CEF Caerdydd. Cafodd niferoedd uchel o garcharorion, o dde-orllewin a chanolbarth Lloegr, eu dadleoli i CEF Caerdydd hefyd. Daeth hyn, yn ogystal â chynlluniau rhyddhau cynnar dros dro i helpu i leihau gorlenwi, fel SDS40 (sy'n caniatáu i garcharorion cymwys sy'n bwrw dedfrydau penodol safonol gael eu rhyddhau ar ôl 40% o'u cyfnod yn hytrach na 50%) a HDC365 (cynllun cyrffyw cadw yn y cartref estynedig, sy'n caniatáu i garcharorion cymwys gael eu rhyddhau hyd at 12 mis yn gynnar o dan amodau cyrffyw a thagio electronig i leddfu gorlenwi) yn rhan o'r prosesau ailsefydlu arferol gan ychwanegu mwy o bwysau at ddarparu gwasanaethau adsefydlu.

7.3.3 Mae gan y rhan fwyaf o garcharorion gynllun adsefydlu ac mae llawer o garcharorion yn elwa o gyfarfodydd ar y cyd â'u POM/COM a'u gweithiwr adsefydlu cyn cael eu rhyddhau drwy gyswllt fideo. Mae pob carcharor yn cael apwyntiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau cyn eu rhyddhau, gyda chyngor yn cael ei roi ac apwyntiadau'n cael eu gwneud gyda Chanolfannau Gwaith priodol. Fodd bynnag, mae'r metrig ar gyfer cofnodi'r cyfarfodydd trosglwyddo hyn yn berthnasol i garcharorion rhwng 8.5 a 7.5 mis cyn eu rhyddhau. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cofnodwyd 10 cyfarfod, er bod cymorth ychwanegol heb ei dracio hefyd wedi cael ei gynnig i garcharorion.

7.3.4 Drwy'r ganolfan gyflogaeth, mae arweinydd cyflogaeth y carchar yn rheoli'r gwaith o sicrhau ID a chyfrifon banc ar gyfer carcharorion, ac mae staff addysg, sgiliau a gwaith yn darparu hyfforddiant ysgrifennu CV a pharodrwydd am waith. Mae gwasanaethau ‘Cymorth drwy’r gât’ hefyd yn cael eu darparu, gydag atgyfeiriadau/apwyntiadau cymunedol priodol yn cael eu gwneud gan Dyfodol, Waliau Anweledig a’r timau cymorth iechyd meddwl/niwrowahaniaeth, cyn rhyddhau.

7.3.5 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd gan 79% o'r carcharorion a ryddhawyd lety ar y noson gyntaf ar ôl eu rhyddhau (84% yn y flwyddyn flaenorol). Hefyd yn ystod y cyfnod hwn, roedd 21% o garcharorion a ryddhawyd, dan oruchwyliaeth, mewn cyflogaeth chwe wythnos ar ôl eu rhyddhau (24% yn y flwyddyn flaenorol) a 39% ar ôl chwe mis. Fodd bynnag, mae'r ffigurau cyfanredol hyn yn cuddio amrywiaeth sylweddol ar draws y cyfnod adrodd. Ar gyfer cyflogaeth chwe wythnos ar ôl rhyddhau, mae’r amrywiaeth yn 11%-29%, ac ar gyfer cyflogaeth ar ôl chwe mis, mae'n 20%-63%. Gallai hyn fod yn arwydd o anwadalrwydd cenedlaethol y farchnad swyddi.

## 7.4 Cyswllt â theulu

7.4.1 Mae Waliau Anweledig dan gontract i ddarparu cymorth i deuluoedd yn CEF Caerdydd. Yn ogystal â chynnal y trefniadau ymweliadau cymdeithasol rheolaidd, mae'r mudiad nid-er-elw hwn yn trefnu ac yn cynnal diwrnodau teulu ychwanegol (sy'n dod â charcharorion a'u teuluoedd at ei gilydd y tu allan i'w hawl statudol i ymweliadau cymdeithasol, fel arfer mewn lleoliadau mwy anffurfiol). Mae hefyd yn trefnu diwrnodau llesiant cymunedol ar gyfer y rhai sydd ddim yn cael cyswllt teuluol a digwyddiadau penodol fel ‘Parth yr Ysgol’, gan ddod â charcharorion, eu plant a’u hathrawon at ei gilydd. Mae aelodau'r Bwrdd yn arsylwi'r digwyddiadau a'r gweithgareddau hyn ac yn ystyried eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a’u bod yn brofiad cadarnhaol i garcharorion a'u teuluoedd.

7.4.2 Y datblygiad mwyaf arwyddocaol o ran cyswllt teuluol yn ystod y cyfnod adrodd fu addasu hen fwyty Clink, y tu allan i gatiau'r carchar, fel canolfan ymwelwyr bwrpasol. Er bod yr ailddatblygu hwn wedi cymryd cryn dipyn o amser i'w wireddu, oherwydd materion ymarferol a staffio, mae'r Bwrdd yn canmol y carchar a Waliau Anweledig am gymryd yr awenau i sefydlu'r cyfleuster hwn, sydd wedi cael ei groesawu'n fawr gan ymwelwyr.

7.4.3 Yn dilyn sylwadau a wnaed gan aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol i'r Llywodraethwr cyfrifol, dywedodd y carchar eu bod nhw a Waliau Anweledig yn bwriadu gwneud ymweliadau cymdeithasol yn fwy cynhwysol i garcharorion ac ymwelwyr niwrowahanol. Gallai hyn gynnwys cyflwyno ystafell ymweliadau

synhwyraidd y flwyddyn nesaf, ac mae'r Bwrdd yn cydnabod bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol.

# 8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

**Ystadegau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymell | 14 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 10 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 5 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad | 288 |

**Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol**

| Cod | Pwnc | Blwyddyn adrodd flaenorol | Blwyddyn adrodd bresennol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi | 33 | 28 |
| B | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cynllun cymhellion, sancsiynau | 18 | 40 |
| C | Cydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys crefydd) | 6 | 7 |
| D | Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser y tu allan i'r gell | 27 | 24 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd | 34 | 53 |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant | 23 | 16 |
| F | Bwyd a cheginau | 11 | 9 |
| G1 | Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol | 42 | 45 |
| G2 | Iechyd (presgripsiynau/meddyginiaeth) | 55 | 30 |
| H1 | Eiddo yn y sefydliad | 15 | 20 |
| H2 | Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn cyfleuster arall | 7 | 8 |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogau | 15 | 18 |
| I | Rheoli dedfryd, gan gynnwys cyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC), rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL), parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio | 24 | 35 |
| J | Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio | 45 | 44 |
| K | Trosglwyddiadau | 9 | 9 |
| L | Amrywiol | 22 | 20 |
| L1 | System gwyno | 8 | 12 |
| | **Cyfanswm y ceisiadau** | **394** | **418** |

# Atodiad A

**Darparwyr gwasanaeth**

Mae amrywiaeth o ddarparwyr cyhoeddus a masnachol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn y carchar:

- Gwasanaethau iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
- Dysgu a sgiliau: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru, ariennir gan Lywodraeth Cymru
- Gwasanaethau hebrwng: GeoAmey
- Cynnal a chadw'r safle: Amey
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau: Dyfodol
- Cwnsela mewn profedigaeth: City Hospice
- Canolfan ymwelwyr/cefnogi teulu: Waliau Anweledig
- Cymorth ailsefydlu: St Giles, Forward Trust a Thîm Adsefydlu Prawf Cymru HMPPS
- Cynllun gwrandawyr: Y Samariaid
- Cymorth llythrennedd: Ymddiriedolaeth Shannon

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom at imb@justice.gov.uk